Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod yna system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'CYWIR' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Cywir	Anghywir*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	✓		Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	✓		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	✓		Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	✓		Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y corff.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	✓		Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	✓		Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	✓		Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	✓		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

	Do	Naddo	D/G		
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: • cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol.			✓	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb a nodwyd fel 'Anghywir' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.